

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE
DYDD LLUN, 16 TACHWEDD 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn	MONDAY, 16 NOVEMBER, 2015 at 2:00 p.m.
SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

ANNIBYNNOL / INDEPENDENT

Jim Evans, Victor Hughes, G.O. Jones, (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones.

PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP

Peter Rogers

HEB YMUNO/UNAFFILIATED

R Ll Jones

AELODAU CYFETHLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a
Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION CYFARFOD 17 MEDI, 2015 (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2015.

3 ENWEBIAD I FWRDD RHAGLEN TRAWSNEWID GWASANAETHAU PLANT

(Tudalennau 9 - 10)

Cyflwno adroddiad y Swyddog Sgriwtini.

4 Y GYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2016/17 (Tudalennau 11 - 30)

Ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb Refeniw 2016/17.

5 BIDIAU CYFALAF 2016/17 (Tudalennau 31 - 46)

Ystyried y rhestr o Fidiau Cyfalaf arfaethedig i'w cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2016/17 i 2020/21.

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2015

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd) Y Cynghorydd G.O.Jones (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Llinos Medi Huws, Victor Hughes, Peter Rogers Aelodau Cyfetholedig (ar gyfer eitem 9) Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol) Y Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)
WRTH LAW:	Y Prif Weithredwr Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 9) Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol (GM) (ar gyfer eitemau 4, 5 ac 8) Rheolydd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (EB) (ar gyfer eitem 9) Rheolydd Gwasanaethau Technegol Tai (DR) (ar gyfer eitem 5) Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) (ar gyfer eitemau 6 a 7) Rheolydd Opsiynau Tai (AP) (ar gyfer eitem 5) Rheolydd Sgriwtini Dros Dro (AGD) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Raymond Jones
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor), Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad, y Cynllun Corfforaethol ac AD), H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Kenneth Hughes (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg)

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

- Cynigwyd y Cynghorydd Jim Evans gan y Cadeirydd i wasanaethu yn lle'r Cyngorydd Peter Rogers ar y Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer. **Cymeradwywyd yr enwebiad gan y Pwyllgor.**
- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod rhai newidiadau yn cael eu cynnig i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini yn dilyn cyfarfod y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2015 a hynny er mwyn hwyluso trefniadau sgriwtini ar gyfer cynigion cychwynnol Cyllideb 2016/17. Ymhelaethir ar y newidiadau a gynigir dan eitem 11 ar y rhaglen.
- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at gyfweiliad a gafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn y diwrnod cynt gyda chynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o Asesiad Cydnerthedd Ariannol a Chyllid Llywodraeth Leol a gynhelir gan SAC mewn perthynas â'r Awdurdod hwn.
- Cafwyd crynodeb gan y Cynghorydd Llinos Huws o'r busnes a gafodd sylw yng nghyfarfod y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Addysg ar 9 Medi a oedd yn cynnwys y cynnydd gyda'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn ardaloedd Caerdybi a'r Llannau; yr adolygiad Gateway a fydd yn digwydd ym mis Hydref 2015 a safonau ysgol a oedd yn fater a grybwyllwyd cyn cyhoeddi data perfformiad ysgolion 2014/15.

3. COFNODION CYFARFOD 6 GORFFENAF 2015

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

4. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2014/15

Cyflwynwyd drafft o Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014/15 i sylw'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad drafft yn gwerthuso'r canlyniadau a'r allbynnau yn erbyn amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2014/15 fel yr amlinellir hwy trwy'r saith maes allweddol yn Nogfen Gyflawni Flynyddol 2014/15.

Pan gyflwynwyd y ddogfen ddrafft gychwynol i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2015 dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod y Pwyllgor wedi nodi ar y pryd y byddai'n fuddiol pe bai'r ddogfen honno wedi cynnwys y canlyniadau yn erbyn dangosyddion perthnasol er mwyn medru asesu perfformiad y Cyngor trwy ddull mwy gwybodus ac ystyrion. Er bod yr adroddiad bellach yn ymgorffori gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad a feincnodwyd yn erbyn awdurdodau eraill yng Nghymru, ac er bod y wybodaeth honno'n adlewyrchu gwelliant mewn perfformiad, mae'n seiliedig ar gyfrifiadau mewnol ac nid yw wedi'i gwirio gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu'r adroddiad drafft ac wedi cadarnhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol a'i fod yn adroddiad cytbwys sy'n cymryd i ystyriaeth y meysydd hynny y gellir eu gwella ymhellach yn ogystal â chyflawniadau.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a chyflwynodd y sylwadau a ganlyn arno –

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y ffaith fod y data perfformiad yn Nhabl 3 yr adroddiad yn dangos bod Ynys Môn yn ail yn y gynghrair o awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn DP SCA/007 tra bod y naratif ar y dudalen honno yn cyfeirio at 4 DP yn y chwarter isaf. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol nad yw'r naratif yn cyfeirio at Dabl 3 ond mewn ffordd sy'n gyson ag asesiad SAC o'r adroddiad fel un cytbwys, mae'n cyfeirio at feysydd lle mae'r perfformiad yn erbyn DP perthnasol wedi bod yn wan mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion ac mae'n amlygu hefyd fod perfformiad yn erbyn dau o'r DP hynny wedi gwella ac mae'n darparu esboniadau lliniarol yn achos y ddau arall. Er bod perfformiad Ynys Môn wedi gwella dygodd y Swyddog sylw penodol at y ffaith fod perfformiad awdurdodau eraill yng Nghymru wedi gwella mwy a bod hynny'n ffactor y mae angen ei gadw mewn cof wrth bennu targedau i'r dyfodol.
- Yng nghyd-destun hyrwyddo'r economi ymwelwyr, nododd y Pwyllgor y byddai unrhyw effaith yn sgil cau'r Ganolfan Groeso yn Llanfairpwll yn y flwyddyn ariannol hon yn cael ei gweld yn Adroddiad Perfformiad 2015/16 gan nodi y bydd yn dymuno sgriwtineiddio'r wybodaeth gymharol ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16 ar yr amser priodol i asesu'n well effeithiau cau'r ganolfan.
- Mewn perthynas â sicrhau sgiliau ac adnoddau i foderneiddio isadeiledd er mwyn cefnogi ynni carbon isel nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gadarnhad yn yr adroddiad o gamau a gymerwyd i gwrdd â'r amcan penodol hwnnw. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod y Cynllun Corfforaethol yn ymwneud â chyfnod o 4 blynedd o 2013-2017 ac nad yw'n fwiad cyflawni pob un o'r dyheadau ynddo mewn un flwyddyn – cynlluniwyd i gyflawni rhai ohonynt yn hwyrach yn y cynllun sef yn 2015/16 a 2016/17.
- Mewn perthynas â thrawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn a'r weledigaeth ar gyfer darparu gofal i oedolion a hyrwyddir gan y nod hwn, nododd y Pwyllgor fod angen i'r Awdurdod fod yn glir y medr gynnal cyfleusterau priodol a digonol yn y cyfnod trosiannol wrth iddo geisio gostwng dibyniaeth ar ddarpariaeth breswyl draddodiadol a sefydlu gwasanaethau yn y gymuned. Roedd y Pwyllgor yn bryderus y gallai methiant i gynllunio ar gyfer y cyfnod trosiannol hwnnw beri risg, o bosib, i gyflawni'r weledigaeth gyffredinol.
- Mewn perthynas â gwella addysg, sgiliau a moderneiddio ysgolion, nododd y Pwyllgor y dirywiad yn y DP sy'n dangos canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos, gan gynnwys eithriadau, a nododd hefyd mai'r eglurhad a roddwyd am hynny yw'r oedi o ran derbyn mewnbyn gan y Gwasanaeth Iechyd. Gofynnodd y Pwyllgor felly am eglurhad ar y gwahaniaeth yn safleoedd Gwynedd ac Ynys Môn yn y gynghrair ar gyfer y DP hwn gan fod Gwynedd yn perfformio'n well nag Ynys Môn er gwaethaf y ffaith fod y ddau gyngor yn dibynnu ar fewnbyn gan yr un Bwrdd Iechyd. Er mwyn nodi'n ganolog y camau cywiro y bydd angen eu cymryd nododd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol bod gofyn cael trafodaethau pellach gyda'r Gwasanaeth Addysg sydd wedi dweud bod cyfraniadau hwyr gan y Gwasanaeth Iechyd yn ffactor.

- Nododd y Pwyllgor y gwahaniaeth sylweddol ym mherfformiad y Cyngor mewn perthynas â Gwasanaethau Plant DP SCC/033F (canran y bobl ifanc a fu gynt yn derbyn gofal ac y mae'r awdurdod mewn cyswllt â hwy ac yn gwybod eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed) lle mae'n gyntaf yng Nghymru, a DP SCC/033d (canran y bobl ifanc a fu gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cyswllt â hwy yn 19 oed) lle mae'r Cyngor yn olaf o'r 22 awdurdod yng Nghymru a gofynnodd am eglurhad am y gwahaniaeth hwn. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod gwybodaeth a dderbynnir gan y gwasanaeth yn cael ei dwyn ynghyd i ddeall yn well y rhesymau am y dirywiad ym mherfformiad DP SCC/033d a'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i hynny. Fodd bynnag, mae ffigwr gwaelodlin ar gyfer rhai o'r DP yn isel sy'n golygu y gall amrywiaethau bychain arwain at newidiadau dramatig yn ein safleoedd yn y chwarteli ac mae hynny'n wir am DP SCC/033d.
- Nododd y Pwyllgor fod Cyngor Sir Benfro yn perfformio'n dda'n gyson fel y tystiolaethir gan y tablau perfformiad a holodd a oes unrhyw weithdrefnau ar gyfer rhannu arferion da ar draws Cymru. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod yr awdurdodau yng Nghymru yn dysgu oddi wrth ei gilydd a bod grwpiau perfformiad ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n dadansoddi DP a'r perfformiad yn eu herbyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr y gall canrannau fod yn gamarweiniol pan fo'r ffigyrau gwaelodlin yn isel yn y lle cyntaf ac y gall amrywiadau sylweddol ddigwydd o ganlyniad. Y dasg allweddol yw tynnu allan y wybodaeth berthnasol ac edrych ar y tueddiadau er mwyn herio gwasanaethau i wella perfformiad.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r canlyniadau a'r allbynnau o'r adroddiad Perfformiad ynghyd â materion a godwyd gan y Pwyllgor ar gyfer her a dadansoddiad pellach.**
- **Cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol am 2014/15 erbyn y dyddiad cau statudol ym mis Hydref a bod y Swyddogion yn ei gwblhau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio.**

DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI

5. MONITRO PERFFORMIAD – CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Trawsnewid a oedd yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy'n dangos y sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 1 2015/16.

Codwyd y materion a ganlyn gan y Pwyllgor ar y wybodaeth a gyflwynwyd –

- Mewn perthynas â Rheoli Pobl, nododd y Pwyllgor gyda siom, er bod cyfraddau salwch yn gwella bob blwyddyn, fod sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1 wedi dirywio o gymharu â llynedd a'i darged corfforaethol o 10 o ddyddiau am bob Gweithiwr Llawn Amser Cyfatebol. Un o'r prif ffactorau oedd yn cyfrannu at y methiant i gyflawni'r targed corfforaethol o 2.5 o ddyddiau ar gyfer Chwarter 1 oedd cyfraddau salwch tymor hir sydd wedi gwaethygu'n sylweddol o gymharu â Chwarter 1 2013 a 2014. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn bwriadu sgriwteiddio'r sefyllfa salwch yn fanylach yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod yr UDA a'r Penaethiaid wedi adnabod cyfraddau salwch tymor hir fel maes y mae angen rhoi sylw iddo i ddeall yn well y rhesymau am y dirywiad yn y perfformiad ac i benderfynu pa gamau y mae angen eu cymryd i wella'r sefyllfa gan gadw mewn cof bod angen trin staff sydd ar absenoldeb tymor hir ar sail achos wrth achos a rhoi pob cefnogaeth iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Nododd y Pwyllgor hefyd fod angen sgriwteiddio absenoldebau salwch yng nghyd-destun y meysydd gwasanaeth hynny lle maent yn cael yr effaith fwyaf.
- Nododd y Pwyllgor y gwelliant yng nghanran y Cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd gan awgrymu ymhellach y byddai'n fuddiol iddo dderbyn data ynghylch nifer y cyfweiliadau a gwblhawyd y tu allan i'r polisi corfforaethol o 5 diwrnod gwaith.
- Mewn perthynas â DP 23 o dan Rheoli Perfformiad (nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod llety - heb gynnwys Llety sy'n Anodd eu Gosod) a oedd yn dangos yn Goch, dywedodd y Rheolydd Gwasanaethau Technegol Tai fod sawl uned yn y Gwasanaethau Tai wedi bod trwy gyfnod o drawsnewid gan gynnwys yr Uned Gosod Tai. Dywedodd y Rheolydd

Opsiynau Tai bod adolygiad yn cael ei gynnal o'r holl geisiadau am dai er mwyn ceisio cyfateb anghenion yr ymgeiswyr yn well gyda'r eiddo sydd ar gael i ostwng nifer y cynigion sy'n cael eu gwrthod a all gael effaith ar ddata perfformiad. Nododd y Pwyllgor y byddai data ynglŷn â nifer y gwrthodiadau cyn Chwarter 2 yn fuddiol i'w gynorthwyo i gymharu perfformiad ac i sefydlu a fu unrhyw welliant o ganlyniad i'r camau a gymerwyd. Nododd y Pwyllgor hefyd fod gan ymgeiswyr hawl i wrthod 3 chynig cyn eu hatal oddi ar y rhestr dai a fedr arafu'r broses gosod tai.

Pwysleisiodd y Pwyllgor y byddai cael gwybodaeth gywir gan yr ymgeiswyr ar eu ffurflenni ymgeisio o gymorth iddynt sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod y llety a gynigir iddynt yn briodol ar gyfer eu hanghenion ac wrth eu bodd.

- Nododd y Pwyllgor y byddai sefydlu panel canlyniad sgrwtini ar gyfer Gosod Tai yn ychwanegu gwerth – gan roi sylw penodol i'r ffactorau hynny sy'n cael effaith ar broses gosod tai'r Awdurdod Lleol.
- Nododd y Pwyllgor fod DP LI/18B – y ganran o ofalwyr oedolion a oedd wedi gofyn am asesiad neu adolygiad ac a oedd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn – yn parhau i fod o dan y targed a'i fod wedi bod yn dangos yn Goch am sawl chwarter yn olynol. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod y tanberfformiad yn Ch1 i'w briodoli i ddiffyg capasiti staffio gyda 50% o'r tîm gofalwyr yn absennol o'u gwaith oherwydd salwch am 6 wythnos yn ystod y chwarter cyntaf. Nododd y Cadeirydd bod hwn yn faes arall lle'r oedd y Pwyllgor yn dymuno sefydlu panel canlyniad sgrwtini i gynnal archwiliad manylach o'r rhesymau sydd wrth wraidd y tanberfformio.
- Nododd y Pwyllgor ymhellach fod sawl DP Rheolaeth Ariannol yn dangos yn Goch yn Chwarter 1 a bod yr UDA a'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol trwy ei Banel Canlyniad Sgrwtini Arbedion Effeithlonrwydd yn monitro'r materion ariannol hynny.

Penderfynwyd –

- **Nodi sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y dangosir yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2015/16.**
- **Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn llwyddo i'w gwella i'r dyfodol fel yr amlinellir ym mharagraff 1.3 yr adroddiad ynghyd â'r camau lliniaru a nodwyd.**

CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Rheolydd Sgrwtini Dros Dro i gydlynu sefydlu'r ddau banel canlyniad sgrwtini ychwanegol y cyfeirir atynt uchod yn y Flwyddyn Newydd.

6. MONITRO'R GYLLIDEB – CYLLIDEB CYFALAF – CHWARTER 1 2015/16

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro a oedd yn amlinellu perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol 2015/16.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y sefyllfa wedi gwella mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf a'u bod yn £927k ar hyn o bryd. Y targed yn y gyllideb ar gyfer derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn oedd £4.646m; mae cwrdd â'r targed yn bwysig o ran ceisio rheoli a gostwng rhwymedigaethau benthyca'r Awdurdod. Mewn perthynas â'r ysgol gynradd newydd yng Nghaerdybi, mae'r costau prosiect diwygiedig o £10.352m yn dangos cynnydd o £1.942m yn y gost yn erbyn cyllideb o £8.410m a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd ar ddeall y bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido 50% o'r cynnydd sy'n golygu y bydd angen i'r Awdurdod gwrdd â'r costau £1m ychwanegol eraill ar gyfer y prosiect hwn.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod gohebiaeth wedi ei derbyn sy'n cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido 50% o'r costau ychwanegol ar y prosiect.

Rhoes y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd gan nodi'r prosiectau mwyaf arwyddocaol o ran y risg fel yr amlinellwyd nhw ym mharagraff 2.3.21 yr adroddiad fel rhai yr ystyrir bod angen eu monitro'n ofalus, gyda chyfeiriad arbennig at y cyllid grant dan Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid y Llywodraeth sydd, oherwydd y modd y caiff y rhan fwyaf o'r gwariant dan y grant ei broffilio ar gyfer Chwarter 4, mewn perygl mawr o golli arian oni fydd modd ei wario'n llawn yn ystod y chwarter olaf.

Dywedodd y Cadeirydd fod Panel Canlyniad Sgriwtini'r Pwyllgor ar Reoli Asedau yn edrych, ymysg pethau eraill, ar y rhaglen gwella mân-ddaliadau ac y bydd yn cyflwyno adroddiad ym mis Chwefror 2016.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

7. MONITRO'R GYLLIDEB – CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 2015/16

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer chwarter cyntaf 2015/16 a'r sefyllfa a ragamcener am y flwyddyn gyfan gan gynnwys ffynonellau'r prif wahaniaethau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer cyllid mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcener ar gyfer 2015/16 yw gorwariant o £1,62m sef 1.3% o gyllideb net y Cyngor am 2015/16. Fodd bynnag, mewn canlyniad sy'n adlewyrchu chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol flaenorol, nid yw'r ffigyrau ar gyfer Chwarter 1 2015/16 o angenrheidrwydd yn arwydd o unrhyw batrwm ac mae modd adfer y sefyllfa. Ceir gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol a'r rhagolygon ar draws y Cyngor o'r adroddiad canol blwyddyn a gyhoeddir ym mis Tachwedd ac er ystyrir y byddai'n gynamserol i gymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd, bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn monitro'r sefyllfa'n rheolaidd ac yn cymryd camau adfer yn ôl yr angen. Mae rhai o'r cyllidebau gwasanaeth yn rhai sy'n dibynnu ar y galw am y gwasanaeth sy'n ei gwneud yn anos i ddarparu rhagamcanion ystyrion.

Nododd y Pwyllgor y sefyllfa a'i bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Cyfeiriwyd hefyd at y gorwariant o £50k ar Gwrs Golff Llangefni oherwydd nad yw wedi cwrdd â'r targedau o ran incwm a phwysleisiwyd bod angen dwyn sylw at hyn yn y gymuned wrth i'r Awdurdod geisio trosglwyddo asedau i'r gymuned a thrydydd partion.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

8. CYNLLUN YMGYNGHORI: CYLLIDEB 2016/17

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad y Pennaeth Trawsnewid yn cynnwys y Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2016/17 i'w weithredu yn ystod y cyfnod rhwng 19 Hydref a 31 Rhagfyr, 2015.

Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol bod y cynllun yn ceisio sicrhau'r cyfranogiad a'r atborth mwyaf posibl o'r broses o ymgynghori ar y gyllideb ac, yn arbennig felly, i ymgysylltu gyda phobl ifanc yr ynys yn ystod y broses drwy ddefnyddio amryfal ddulliau gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, bod y broses o ymgynghori ar y gyllideb yn hanesyddol wedi canolbwyntio ar y cynigion ar gyfer arbedion a'r modd y byddai'r rheiny'n cael effaith ar y ddarpariaeth o wasanaethau; fodd bynnag, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng yr arbedion ar y naill law a'r cynigion ar gyfer y Dreth Gyngor ar y llall gan geisio hefyd gael sylwadau'r dinasyddion ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, sydd, ar gyfradd o 4.5%, yn sylweddol uwch na chwyddiant.

Penderfynwyd derbyn a chefnogi'r Cynllun Ymgynghori ar gyfer Cyllideb 2016/17 fel y caiff ei amlinellu yn Atodiad A yr adroddiad.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

9. MODERNEIDDIO YSGOLION AR YNYS MÔN: YMGYNGHORI'N FFURFIOL YN ARDALOEDD BRO RHOSYR AC ABERFFRAW

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Dysgu ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol i adolygu'r ddarpariaeth o addysg gynradd yn Ne-Orllewin Ynys Môn a gynhaliwyd rhwng 22 Mehefin a 2 Awst, 2015, yn seiliedig ar ddau opsiwn a ddaeth allan o'r cyfnod ymgynghori anstatudol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a Hydref 2014. Yn yr adroddiad, nodwyd y prif yrwyr ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion yn Ynys Môn ynghyd ag ymateb yr holl gydranddeiliaid ysgol yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses ffurfiol yn Ne Orllewin Ynys Môn; canlyniadau arolwg traffig a gynhaliwyd yn ardaloedd yr ysgolion a effeithir, dadansoddiad o'r opsiynau a ystyriwyd ynghyd â goblygiadau cost ac arbedion cost pob opsiwn unigol.

Cyflwynwyd yn y cyfarfod ohebiaeth gan Mr Alan Smith ynghylch dyfodol Ysgol Bodorgan a'r Ganolfan Gymuned fel rhan o'r broses ymgynghori a oedd, drwy amryfusedd, wedi cael ei gadael allan o'r pecyn adroddiadau ar adeg ei gyhoeddi.

Rhoes y Pennaeth Dysgu i'r Pwyllgor grynodeb o ymateb y cydranddeiliaid i'r ymgynghoriad ffurfiol a'r materion allweddol a oedd yn codi.

Rhodddwyd i'r Canon Robert Townsend, cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru ar y Pwyllgor Sgriwtini ar gyfer materion addysgol, y cyfle i ymhelaethu ar yr ystyriaethau a gyfrannodd at lunio'r farn y daeth Adran Addysg Esgobaeth Bangor iddi fel y'i nodir yn adran 11 yr Adroddiad ar yr Ymateb i'r Ymgynghoriad.

Rhoes y Pwyllgor sylw gofalus i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac yn y drafodaeth ddilynol, codwyd y materion isod –

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch yr hyn yr oedd statws yr ysgol newydd arfaethedig fel Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yn ei olygu o ran rheolaeth, cymeriad ac arferion dydd i ddydd. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod statws rheolaeth wirfoddol yn golygu bod yr Eglwys, ar adeg sefydlu'r ysgol yn wreiddiol, yn rhan o'r ysgol a dyna pam mae'r ysgol yn bodoli. O'r herwydd, mae'r Esgobaeth yn gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer rhan o'r safle ac mae ganddi'r hawl i benodi chwarter o aelodau'r Corff Llywodraethu. Disgwylir i'r ysgol fod ag ethos Cristnogol a gweithred ddyddiol o addoliad yn unol â thraddodiad Cristnogol. Disgwylir hefyd i'r Pennaeth, fel rhan o'i rôl, hyrwyddo cymeriad Cristnogol yr ysgol. Caiff cymeriad Cristnogol ac agweddau addoli ar y cyd ysgol yr Eglwys yng Nghymru eu harolygu gan yr Eglwys yn hytrach nag Estyn.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y materion cyfreithiol sy'n codi yn sgil cau Canolfan Gymunedol Bodorgan a'r effaith bosibl ar y rhaglen foderneiddio a'r cynllun busnes yn Ne Orllewin Ynys Môn oni fedr y Cyngor werthu'r cyfleuster hwn. Oni fydd y ganolfan gymunedol yn cael ei gwerthu, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhaid ffactora hynny i mewn i'r Cynllun Busnes. Fodd bynnag, roedd ef yn hyderus y gellir datrys y materion cyfreithiol.
- Roedd y Pwyllgor, tra'n cydnabod bod yr ymgynghoriad anffurfiol yn drwyadl ac yn gynhwysol, o'r farn bod yr ymgynghoriad ffurfiol yn llai boddhaol er ei fod yn cydnabod fod y broses statudol wedi ei llesteirio gan yr hyn a bennir yn y gyfraith. Awgrymodd y Pwyllgor nad oedd statws Eglwys yr ysgol newydd arfaethedig yn agwedd a oedd wedi ei chyfleu mor glir ag y gellid yn yr adroddiad.
- Gofynnodd y Pwyllgor a ymgynghorwyd yn ddigonol gyda chydranddeiliaid yn Nwyran, Bodorgan a Niwbwrch ar statws Eglwys yr ysgol newydd ac a oedd rhieni yn y cymunedau hynny'n gwerthfawrogi'n llawn yr hyn yr oedd hynny'n ei olygu. Cafwyd cynnig i ymgynghori ymhellach gyda'r cymunedau hyn ynghylch statws yr ysgol newydd cyn gwneud unrhyw argymhelliad penodol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr holl ysgolion a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad wedi cael yr un cyflwyniad dan arweiniad y Swyddogion Addysg ar sail yr opsiynau a amlinellir yn nhabl 6.2 yr adroddiad sy'n glir ynghylch statws yr ysgol newydd. Mae'r dull a'r broses wedi bod yn gyson drwyddi draw.

Yn y bleidlais a gafwyd wedyn ar y mater hwn, ni chafodd y cynnig i ohirio gwneud penderfyniad er mwyn cynnal trafodaethau pellach ei gario.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynghylch nifer y disgyblion y byddai'n rhaid eu cofrestru yn Ysgol Brynsiencyn i sicrhau ei dichonoldeb. Eglurodd y Pennaeth Dysgu fod rheoliad statudol ynghlwm â'r broses pan fydd nifer y disgyblion mewn ysgolion yn llai na 9.

Yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd argymhell Opsiwn Option B4a i'r Pwyllgor Gwaith fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor yn ei ffafrio ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw. (Ni wnaeth y Cynghorwyr Ann Griffith, Lewis Davies a R.Meirion Jones bleidleisio ar y mater).

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

10. PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI: DATGANIAD SEFYLLFA

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r Panelau Canlyniad Sgriwtini cyfredol. Yn yr adroddiad, cafwyd diweddariad ar gynnydd a statws y Panelau Canlyniad Sgriwtini a sefydlwyd gan y Pwyllgor hwn – 7 ohonynt ar hyn o bryd (Atodiad 1) a rhoes amlinelliad o'r modd y mae'r Awdurdod yn bwriadu cryfhau ymhellach y berthynas rhwng y swyddogaeth Sgriwtini a blaenoriaethau strategol y Cyngor.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r sefyllfa gyfredol ynghylch gwaith y saith Panel Canlyniad Sgriwtini.**
- **Cefnogi ymdrechion y Swyddogion i gyflwyno adroddiadau diweddarau chwarterol ar waith y Panelau Canlyniad Sgriwtini i'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, y Gweithgor Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**
- **Cryfhau ymhellach y cysylltiad a'r aliniad rhwng y Swyddogaeth Sgriwtini a blaenoriaethau strategol y Cyngor fel y nodir hynny yn Rhan 4 yr adroddiad.**

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

11. BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor - adroddiad y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill, 2016.

Dywedodd y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro y bwriedir, gyda chaniatâd y Pwyllgor, wneud y newidiadau a ganlyn i'r Rhaglen Waith er mwyn sicrhau yn bennaf oll eu bod yn cyd-fynd a'r broses o ymgynghori ar y Gyllideb ar gyfer 2016/17 a'i chymeradwyo:

- Y bydd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor sydd wedi ei drefnu ar gyfer 16 Tachwedd yn canolbwyntio ar drafod y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn codi o'r pedwar gweithdy cyllideb a gynhaliwyd yn ystod Medi a Hydref.
- Bod busnes arferol y Pwyllgor a oedd i'w drafod yn y cyfarfod ar 16 Tachwedd yn cael ei aildrefnu, gyda chaniatâd y Cadeirydd, i gyfarfod a gynhelir ar 1 Rhagfyr 2015.
- Bod y cyfarfod o'r Pwyllgor a oedd wedi ei ddynodi fel cyfarfod i drafod y gyllideb ar 11 Ionawr 2016 yn cael ei ddileu.
- Y bydd Cyllideb 2016/17 yn cael ei thrafod eto yn y cyfarfod o'r Pwyllgor sydd wedi ei drefnu ar gyfer 1 Chwefror 2016 a hynny cyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer y Gyllideb ar 16 Chwefror yn barod i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir ar ddiwedd mis Chwefror.

Dywedodd y Swyddog nad yw penderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma ynglŷn â'r modd y bydd y baich gwaith yn cael ei rannu rhwng y ddau bwyllgor sgriwtini. Fodd bynnag, bydd newidiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y pwyllgorau i ganiatáu trosglwyddo gwaith rhwng y ddau bwyllgor i ymateb i bwysau gwaith yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir ar 29 Medi.

Penderfynwyd derbyn y newidiadau i'r Flaenraglen Waith fel y cawsant eu hamlinellu.

CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro i ddiweddarau'r Flaenraglen Waith yn unol â'r manylion.

DRAFFT

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	<ul style="list-style-type: none"> • Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (12 Tachwedd 2015) • Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (16 Tachwedd 2015)
DYDDIAD:	12 Tachwedd 2015 / 16 Tachwedd 2015
PWNC:	Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant
AELOD PORTFFOLIO:	Y Cynghorydd Aled Morris Jones
AWDUR YR ADRODDIAD:	Swyddog Sgriwtini
Ffôn:	01248752039
E-bost:	gwrce@ynysmon.gov.uk

1.0 ARGYMHELLIAD

- 1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad a chymeradwyo penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac Arweinydd yr Wrthblaid yn Aelodau o'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant.

2.0 RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD

- 2.1 Cafwyd cais gan y Gwasanaethau Plant i Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wasanaethu fel cynrychiolydd ar Fwrdd Rhaglen arfaethedig ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant. Dylai'r Aelodau nodi **nad yw'r** Bwrdd hwn yn un o'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid newydd a sefydlwyd gan y Cyngor. Yn hytrach, mae'n fwrdd annibynnol a fydd yn adrodd i'r ddau Fwrdd Trawsnewid newydd fel y sy'n briodol.
- 2.2 Ar 23 Hydref 2015 ystyriwyd y cais gan Fforwm Cydlynu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini. Ar ôl rhoi sylw i'r mater ystyriwyd mai'r ffordd fwyaf briodol ymlaen fyddai i Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Y Cynghorydd Gwilym Jones) gael ei enwebu fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini ar y Bwrdd ac mai Arweinydd yr Wrthblaid ddylai fod yr ail gynrychiolydd.
- 2.3 Ystyriwyd y byddai'n ddoeth pe bai aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu aelodaeth y ddau Fwrdd Trawsnewid Newydd. O dan strwythur newydd y ddau Fwrdd Trawsnewid bydd eu haelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr Pwyllgorau Sgriwtini ac Arweinydd yr Wrthblaid.

3.0 BWRDD RHAGLEN TRAWSNEWID GWASANAETHAU PLANT

- 3.1 Bydd y Bwrdd yn un o'r prif ffrydiau gwaith a wneir gan y Gwasanaethau Cymunedol yn y Gyfadran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Hwn yw'r cyfrwng a ddefnyddir gan yr Adran i sicrhau y bydd y weledigaeth y cytunwyd arni yn dod yn realiti ar gyfer y Gwasanaethau Plant.
- 3.2 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal trosolwg o'r prosiectau a nodir yn y Rhaglen Drawsnewid ac am eu cyflawni mewn dull amserol. Bydd hyn yn rhoi hyder y bydd y buddion a ragwelir i'r Cyngor ac i gymunedau Ynys Môn yn cael eu gwireddu ac yn sicrhau y cyflawnir gweithgareddau yn unol ag amcanion corfforaethol Ynys Môn a themâu'r diwylliant trawsnewid.

Nodau'r Bwrdd

- Hyrwyddo a gyrru'r rhaglen i gyflawni'r canlyniadau a'r buddion a nodwyd ac i gydlynu a llywodraethu defnydd teg o adnoddau rheoli prin ar draws y rhaglen
- Gyrru newid a gwelliant yn y gwasanaeth i gyflawni Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Plant a gofynion y Ddeddf.
- Gwireddu buddion y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant
- Cydlynu ac arwain prosiectau a'r rhaglen gyffredinol
- Sicrhau, gyda chymorth y Rheolydd Rhaglen, bod prosiectau unigol yn y gwasanaeth yn cael eu rheoli, eu cyflawni a'u monitro yn unol â disgwyliadau, gan ddysgu gwersi a rhannu arferion da.
- Rhoi hyder i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Gwaith, Rheoleiddwyr (h.y. adolygiadau / archwiliadau allanol ac archwiliadau mewnol) a gweithwyr ledled y Cyngor ynghylch y cynnydd a wneir gyda'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a'i phrosiectau unigol, gan sicrhau cyfathrebu mewn modd tryloyw, hwylus ac amserol.

4.0 CASGLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio nodi'r adroddiad a chymeradwyo penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac Arweinydd yr Wrthblaid fel Aelodau o'r Bwrdd Rhaglen ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant.

Awdur: Geraint Wyn Roberts
Teitl y Swydd: Swyddog Sgriwtini
Dyddiad: 26 Hydref 2015

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL
DYDDIAD:	9 TACHWEDD 2015 16 TACHWEDD 2015
PWNC:	CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2016-17
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD H.E. JONES
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES
AWDUR YR ADRODDIAD: RHIF FFÔN: E-BOST:	BETHAN HUGHES OWEN Est. 2663 bhofi@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	
A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau	
<p>1. CEFNDIR</p> <p>1.1 Penderfyniadau a wnaed eisoes</p> <p>1.1.1 Roedd yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf yn diweddarar'r Strategaeth Tymor Canol ar gyfer Refeniw a'r rhagdybiaethau ar gyfer cyllideb 2016/17. Bryd hynny amcangyfrifwyd y byddai bwllch cyllidebol o £5.2m. Amcangyfrifir y bydd y bwllch hwn yn cynyddu i £5.6m oherwydd effaith costau yswiriant gwladol uwch o fis Ebrill 2016 y gwnaed darpariaeth ar eu cyfer ar hyn o bryd mewn cyllideb hapddigwyddiad. Mae'r cynnydd yn y costau yswiriant gwladol yn sylweddol ac i gynorthwyo i wrthbwysu eu heffaith, mae cyllidebau hapddigwyddiadau eraill wedi cael eu gostwng yn sylweddol neu wedi cael eu dileu.</p> <p>1.1.2 Mae'r adroddiad yn nodi'r bwllch cyllidebol yn seiliedig ar y setliad tebygol gan Lywodraeth Cymru. Datblygwyd Strategaeth Gyllidebol newydd ar gyfer y Cyngor, sef model 'Cyllid Môn' lle cynhaliwyd adolygiadau gwasanaeth a gweithdai i ddarparu cynigion ar gyfer arbedion effeithlonrwydd. Roedd y rhain yn seiliedig ar y rhagdybiaeth na fyddai'r Cyllid Allanol Cyfun yn newid.</p> <p>1.1.3 Roedd yr adroddiad ar y Gyllideb dyddiedig 20 Gorffennaf 2015 yn amlinellu'r egwyddorion sylfaenol a ganlyn ar gyfer sefydlu'r gyllideb ddigyfnewid:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu cynnydd arfaethedig o 4.5% yn y Dreth Gyngor; • Cyfradd chwyddiant o 1.25% ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau; • Cynnydd ar sail chwyddiant gwirioneddol lle mae'n rhaid gwneud hynny yn ôl y gyfraith neu trwy gontract ar gyfer trethi annomestig ac ati; • Cynnydd o 5% mewn Ffioedd a Thaliadau; • Newidiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed eisoes. <p>1.1.4 Defnyddio cronfeydd wrth gefn: Cymerwyd na fydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ariannu'r gyllideb refeniw yn 2016/17. Fodd bynnag bydd angen ailystyried hyn yn dibynnu ar y setliad terfynol.</p> <p>1.2 Y Setliad Dros Dro i Lywodraeth Leol</p> <p>1.2.1 Rhagwelir y bydd y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyhoeddi'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol cyn 31 Rhagfyr 2015 a disgwylir y Setliad Terfynol cyn 31 Mawrth 2016.</p>	

1.2.2 Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch pryd y derbynnir y Setliad Terfynol gallai manylion yr adroddiad hwn newid yn sylweddol ar ôl derbyn y Setliad Terfynol. Gallai hynny olygu y bydd angen galw ar arian refeniw o gronfeydd wrth gefn neu bod angen rhagor o arbedion effeithlonrwydd. Gwneir darpariaeth am y sefyllfa hon yn y gyllideb derfynol a gynigir ym mis Mawrth 2016.

2. CYLLIDEB REFENIW 2016/17

2.1 Y Gyllideb Ddigyfnewid

2.1.1 Mae Atodiad A yn dangos drafft o'r gyllideb refeniw ddigyfnewid lefel uchel ar gyfer 2016/17. Mae'n cymryd cyllideb derfynol 2015/16 fel y pwynt cychwyn ac mae'n adlewyrchu symudiadau yn y gyllideb drwy gydol y flwyddyn, trosglwyddiadau grant, symudiadau staffio, chwyddiant a newidiadau yr ymrwymwyd iddynt.

2.1.2 Mae'r gyllideb ddigyfnewid wedi cymryd i ystyriaeth y ffactorau a ganlyn:

- Mabwysiadu cynnydd arfaethedig o 4.5% yn y Dreth Gyngor;
- Cynnydd o 1% ar gyllidebau tâl
- Cyfradd chwyddiant o 0% ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau;
- Cynnydd ar sail chwyddiant gwirioneddol lle mae'n rhaid gwneud hynny yn ôl y gyfraith neu trwy gontract ar gyfer trethi annomestig ac ati;
- Cynnydd o 5% mewn Ffioedd a Thaliadau;
- Newidiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed eisoes.

2.1.3 Y prif newid o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf yw effaith y broses Arfarnu Swyddi a'r cynnydd yn y costau yswiriant gwladol. Mae gan y rhain effaith sylweddol ar y strategaeth. Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod effaith trefniadau diogelu cyflog sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb yn agos i £3m. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys costau ychwanegol sy'n codi o'r cynllun Arfarnu Swyddi megis costau incrementau ychwanegol o fis Ebrill 2016.

2.1.4 Mae'r gyllideb ddigyfnewid hefyd wedi caniatáu ar gyfer:-

- Colli Incwm Grant Penodol lle mae hynny'n hysbys
- Incrementau Staff
- Arbedion Trosiant Staff
- Cynnydd yn y Taliadau Blwydd-dal gan y Cyflogwr

2.1.5 Cymerwyd newidiadau demograffig cyfyngedig i ystyriaeth hefyd. Cymhwyswyd rhywfaint o newid i nifer y disgyblion am y flwyddyn, gyda'r Sector Cynradd yn gweld cynnydd o 102 o ddisgyblion a'r Sector Uwchradd yn gweld cynnydd o 2 ddisgybl. Mewn perthynas â'r newidiadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ni fydd unrhyw newid yn cael ei gymhwyso.

2.1.6 Mae'r gyllideb ddigyfnewid yn rhagdybio y llwyddir i gyflawni'r arbedion yn llawn ar gyfer eleni.

2.2 Risgiau a Digwyddiadau Annisgwyl

2.2.1 Mae yna nifer o risgiau allweddol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu yn 2016/17 a all gael effaith ar ei gyllid wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Ni ellir mesur maint y risgiau ar hyn o bryd. Maent yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:-

2.2.2 Grantiau Penodol – Pan gyflwynir yr adroddiad hwn, ychydig iawn o wybodaeth fanwl sydd ar gael ynghylch dyraniadau grant ar gyfer 2016/17. Disgwylir toriadau sylweddol ar draws holl gynlluniau grant allanol Llywodraeth Cymru. Dau grant allweddol lle nodwyd y byddai gostyngiadau yn y cyllid ar eu cyfer yw'r Grant Amgylchedd Sengl (SWMG gynt) a'r Grant Cefnogi Gwasanaethau Bws (Tocynnau teithio rhatach).

2.2.2.1 Grant Amgylchedd Sengl – disgwylir gostyngiad sylweddol o 25-30% yn y grant hwn ar gyfer 2016/17. Bydd y grant hwn yn disodli'r grant SWMG sy'n darparu £1.8m o gyllid ychwanegol ar gyfer y Cyngor ar hyn o bryd. Gallai maint y gostyngiad olygu y derbynnir £400-£500k yn llai. Bydd angen cynnwys y ffactor hwn yn y broses gyllidebol a'r arbedion effeithlonrwydd pan dderbynnir hysbysiad swyddogol.

2.2.2.2 Grant Cefnogi Gwasanaethau Bws – ar hyn o bryd gall yr awdurdod hawlio hyd at £490,512 o Grant Cefnogi Gwasanaethau Bws gan Lywodraeth Cymru (trwy Gyngor Sir Y Fflint fel yr Awdurdod sy'n arwain ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru). Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cynllun ar hyn o bryd ac er efallai na fydd y gyllideb gyffredinol ar gyfer Cymru yn gostwng yn 2016/17 mae'n bosib y bydd arian yn cael ei ailddosbarthu rhwng y rhanbarthau. Byddai hynny'n debygol o fod yn ffafriol i'r ardaloedd mwy trefol yn ne Cymru lle mae mwy o wasanaethau bws yn rhedeg yn fasnachol, ar draul ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru lle mae mwy o wasanaethau ar dendr. Mae'n bosib felly y gall yr awdurdod hwn dderbyn llai o arian yn 2016/17 nag a gafodd yn 2013/14 a 2014/15.

2.2.3 Mae'r gweithgareddau cyfredol mewn perthynas â'r orsaf niwclear arfaethedig a'r Rhaglen Ynys Ynni wedi cael sylw mewn cyllidebau blaenorol a chronfeydd wrth gefn. Efallai y bydd angen eu diwygio o bryd i'w gilydd ac mae'r pwysau ar y cyllidebau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

2.2.4 Cynigir cyfanswm o £3.233m ar gyfer cyllidebau hapddigwyddiad fel rhan o gyllideb 2016/17 er mwyn cynorthwyo i leddfu rhai o'r risgiau cyllidebol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cynnwys y risgiau sy'n codi o dderbyn llai o grantiau. Mae'r gyllideb ar gyfer hapddigwyddiadau yn cynnwys swm sylweddol o £1.5m i ddarparu ar gyfer pan geir gwared ar yr ad-daliadau yswiriant gwladol o 3.4% y mae'r awdurdod wedi bod yn eu derbyn ar staff sydd wedi eu contractio allan ac sydd wedi bod yn cyfrannu at gynlluniau pensiwn yr awdurdod. Bydd yr ad-daliad hwn yn cael ei ddileu o Ebrill 2016 a rhagwelir y bydd yn cael effaith o £1.5m. Mae'r cyllidebau hapddigwyddiadau eraill sy'n gwneud cyfanswm o £1.733m wedi eu crynhoi isod.

2.2.4.1 Mae gostyngiad o £210k yn y gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol oherwydd effaith newidiadau cyllido cyfalaf a throsglwyddo cyllid i feysydd gwasanaeth. Argymhellir cyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol o £310k ar gyfer 2016/17. Cedwir y gyllideb hon i gwrdd ag ansicrwydd wrth i'r gyllideb fynd yn ei blaen. Mae angen cronfa gyffredinol o'r fath i ddelio gyda digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld yn ystod y flwyddyn.

- 2.2.4.2** Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys £400k ar gyfer gwariant unwaith ac am byth yn bennaf i gefnogi gweithgareddau gwella a pherfformiad.
- 2.2.4.3** Mae cyllideb hapddigwyddiadau o £500k wedi ei chynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 ar gyfer costau cyflogau a graddfeydd. Byddai'r gronfa hon yn cyllido costau taliadau diswyddo sy'n arwain at arbedion effeithlonrwydd. Byddai hefyd yn cynorthwyo i gyllido unrhyw swyddi a fydd yn cael eu hailraddio gan Banel Ailraddio 2016.
- 2.2.4.4** Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys cyllid £48k ar gyfer prosiect costau newid a fydd o gymorth i gyflawni blaenoriaethau trawsnewid ynghyd â £50k ar gyfer cymorth tuag at Drethi Cenedlaethol Annomestig.
- 2.2.4.5** Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cyllideb o £600k wedi bod yn cyfrannu at y gronfa ar gyfer y cynllun Arfarnu Swyddi. Mae'r broses Arfarnu bellach yn dod i ben ac mae'r trefniadau diogelu cyflog wedi eu hymgorffori yn y cyllidebau. Mae £3m ar ôl yn y gronfa wrth gefn ar gyfer Arfarnu Swyddi i dalu am yr elfen ôl-dâl. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n ddigon bydd angen galw ar y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae'r swm wrth gefn o £600,000 ar gyfer y cynllun Arfarnu Swyddi felly wedi ei ddileu ar gyfer 2016/17.
- 2.2.4.6** Mae risg sylweddol o gostau uwch yn y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r pwysau ar ffioedd ar gyfer gofal a gomisiynir yn allanol a hefyd oherwydd yr angen i gyllido'r costau rhedeg ychwanegol yng nghartref gofal preswyl Haulfre ar gyfer 2016/17 a 2017/18. Mae cronfa neilltuedig o £425k wedi ei chynnwys ar gyfer y rhain.

2.3 Y Bwlch Cyllidebol

- 2.3.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r gyllideb ddigynnydd drafft fel sail ar gyfer cyllideb referniw 2016/17.
- 2.3.2** Disgwylir y setliad dros dro ar gyfer 2016/17 gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Rhagfyr 2015. Mae amcangyfrif doeth o doriad o 4.5% yn y Cyllid Allanol Cyfun wedi ei gynnwys yng nghyllideb ddrafft 2016/17. Amcangyfrifir hefyd gynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor.

	£'000
Cyllid Allanol Cyfun	88,783
Y Dreth Gyngor	32,348
Cyfanswm	121,131

- 2.3.3** Mae'r gyllideb ddigynnydd ddrafft, h.y. y gyllideb cyn unrhyw arbedion, yn £126,701,757 ar hyn o bryd. Mae'r bwlch cyllidebol ar adeg y gyllideb ddigynnydd ddrafft gychwynnol yn £5.571m.
- 2.3.4** Mae'r bwlch yn seiliedig ar gynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor. Isod mae tabl sy'n nodi'r gwahanol lefelau o dreth gyngor a'r arbedion y byddai eu hangen ar eu cyfer. Mae'r tabl hefyd yn amcangyfrif yr effaith wythnosol a'r cynnydd yn y gost i bob eiddo Band D ar gyfartaledd yn seiliedig ar pob cynnydd canrannol.

%	Treth Gyngor £	Arbedion Angenrheidiol	Effaith Wythnosol ar Eiddo Band D	Cyfanswm Cost
5	32,502,852	5,416,375	£0.99	£51.48
4.75	32,425,464	5,493,763	£0.94	£48.88
4.5	32,348,076	5,571,151	£0.89	£46.28
4.25	32,270,689	5,648,538	£0.84	£43.68
4	32,193,301	5,725,926	£0.79	£41.08

3. Y STRATEGAETH GYLLIDEBOL

3.1 Y Strategaeth Effeithlonrwydd

Fel rhan o fframwaith ar gyfer cynllunio gwasanaethau a'r gyllideb, mae strategaeth effeithlonrwydd wedi ei pharatoi yn awr yn seiliedig ar yr Adolygiadau Gwasanaeth Blyneddol a'r ddogfen Strategaeth Effeithlonrwydd. Mae'r Strategaeth ar gyfer y Tymor Canol yn dwyn sylw at:-

- Gostwng costau rheoli, democrataidd a biwrocratiaeth;
- Cydweithio gydag eraill lle mae modd arbed arian neu i gynorthwyo i gynnal lefelau gwasanaeth;
- Gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau allan o'n staff;
- Sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i greu incwm ar gyfer y Cyngor;
- Trawsnewid gwasanaethau y mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i ni eu darparu er mwyn sicrhau eu bod yn fodern, yn effeithiol ac yn effeithlon;
- Herio a ddylem barhau i gyllido gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol a statudol os yw pobl eraill hefyd yn eu darparu;
- Deall effaith y cynigion ar Ynys Môn a'i thrigolion, yn enwedig y rheini sydd fwyaf angen ein gwasanaethau.

3.2 Cynigion Arbedion

3.2.1 Y prif fater yn y strategaeth effeithlonrwydd, wrth gwrs, yw'r angen i wneud arbedion refeniw ar raddfa na welwyd ei thebyg erioed o'r blaen, nid dim ond ar gyfer 2016/17 ond i'r dyfodol rhagweladwy hefyd. Mae'r cynigion a gyflwynwyd hyd yma gan y Cyfadrannau yn gymysgedd o Arbedion, Effeithlonrwydd a Chynhyrchu Incwm. Mae'r rhain yn gwneud cyfanswm o £3.919m ac fe'u cyflwynir yn Atodiad B i'w hystyried. Erys bwch cyllidol sylweddol o £1.652m os derbynnir pob un o'r cynigion hyn.

3.2.2 Ni fydd y targedau arbedion yn cael eu gweithredu'n gyfartal o angenrheidrwydd ar draws pob gwasanaeth, ond byddant yn adlewyrchu dewisiadau a blaenoriaethau'r Pwyllgor Gwaith.

3.2.3 Nid yw'r cynigion ar gyfer arbedion a gyflwynwyd hyd yma yn cynnwys unrhyw ddiswyddiadau a ragwelir.

3.2.4 Bydd y rhan fwyaf o'r cynigion arbedion a gyflwynwyd hyd yma yn siŵr o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau i wahanol raddau a bydd raid ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau. Gall arbedion a wneir mewn un adran gael effaith

anfriadol ar wasanaethau eraill trwy gynyddu costau oherwydd rhyngddibyniaeth rhai gwasanaethau.

3.2.5 Bydd y cynigion hefyd yn dibynnu ar amcanion y Pwyllgor Gwaith. Mae posibilrwydd na fydd yr holl gynigion a gyflwynwyd yn cael eu gweithredu. Mae angen gwirio, adolygu a herio rhai o'r cynigion ymhellach, nid yw rhai ohonynt yn newydd a bydd angen cymryd amser i gyflawni rhai eraill. Mae cyfres o adolygiadau gwasanaeth wedi'u cwblhau ar draws y Cyngor i nodi arbedion effeithlonrwydd i gynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â thargedau cyllidebol dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen arbedion ychwanegol sylweddol er mwyn cwrdd â'r bwch cyllidol.

3.2.6 Mae'n anochel y bydd rhai o'r cynigion arbedion hyn yn golygu gostyngiad yn nifer y staff. Efallai y bydd y gostyngiad hwn yn digwydd yn naturiol yn sgil staff yn cyrraedd oed ymddeol neu'n cael swyddi eraill. Mae'r cynigion arbedion ar hyn o bryd yn rhagdybio arbedion blwyddyn gyfan mewn perthynas â gostyngiadau staffio. Mae risg amseru yn gysylltiedig â'r rhain gan na fydd modd cyflawni'r arbedion llawn os nad yw niferoedd y staff wedi gostwng erbyn 1 Ebrill 2016. Mae'n debygol hefyd y bydd costau diswyddo hefyd. O'r herwydd, bydd angen sefydlu cronfa ar gyfer diswyddiadau fel y nodir uchod ar raddfa debyg i honno a gymeradwywyd yng nghyllideb 2015/16.

3.2.7 Cynigir gostwng cyfraniadau'r Trydydd Sector gan hyd at 5%.

3.3 Bidiau Twf a Phwysau

3.3.1 Nid oes unrhyw lwfans ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw Fidiau Twf.

4. MATERION AR GYFER PENDERFYNIAD

4.1 Nid yw cynnwys y Gyllideb wedi ei ragnodi, ond yn unol â gofynion yr amserlen mae'n rhaid cael cydweithrediad y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Cyngor Llawn os am fabwysiadu'r gyllideb ym mis Mawrth 2016.

4.2 Mae'r adroddiad hwn wedi argymhell:-

- (a)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r gyllideb ddigyfnewid ddrafft fel sail ar gyfer cyllideb refeniw 2016/17;
- (b)** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2016/17 i gydbwysu'r gyllideb refeniw heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn;
- (c)** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith gynllunio i gwrdd â chostau diswyddo nad oes modd eu hosgoi neu gostau unwaith ac am byth eraill sy'n gysylltiedig â gwneud arbedion trwy ddefnyddio cyllidebau hapddigwyddiadau ond heb ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn.
- (d)** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio barn y cyhoedd ar yr arbedion arfaethedig.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r penderfyniad wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi		
DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Ymgynghoriad â'r Grŵp Llywio ar y Gyllideb
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Adroddiad gan y Swyddog A151 yw hwn
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdlodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
Atodiad A: Crynodeb o'r Gyllideb Ddigyfnewid Ddrafft a'r Bwlch Cyllidebol Atodiad B: Arbedion Effeithlonrwydd a Nodwyd		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

CRYNODEB O'R GYLLIDEB DDIGYFNEWID DDRAFFT A'R BWLCH CYLLIDEBOL**Yn seiliedig ar Gynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor**

Cyfadran	Sefyllfa Ddigyfnewid Ddrafft £
Addysg Gydol Oes (Gan gynnwys Ysgolion)	49,412,810
Gwasanaethau Cymunedol	30,322,910
Datblygu Cynaliadwy	19,559,780
Dirprwy Brif Weithredwr	12,034,700
Costau Corfforaethol a Democrataidd	1,913,150
Cyfreithiol a Gweinyddol	2,257,900
Ardollau	3,203,890
Cyllido Cyfalaf a Llog	8,301,957
Codi ar y CRT/TLLU	-621,950
Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy	0
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Arfarnu Swyddi	-2,916,390
Cyfanswm	123,468,757
Cronfa ar gyfer Gwelliannau	400,000
Cronfa Hapddigwyddiadau Gyffredinol	310,000
Cyflogau a Graddfeydd	500,000
Cronfa ar gyfer Costau Newid	48,000
Cymorth Dewisol tuag at y Dreth	50,000
Cronfa Hapddigwyddiadau Clustodedig	425,000
Cronfa i gwrdd â chostau yn sgil cael gwared ar ad-daliadau Yswiriant Gwladol (3.4%)	1,500,000
Is Gyfanswm – Cyllideb Ddigyfnewid cyn arbedion	126,701, 757
Wedi ei Gyllido Gan:	
Cyllid Allanol Cyfun	88,782,530
Y Dreth Gyngor	32,348,076
Cytundeb Canlyniadau	0
Cyfanswm Cyllido	121,130,606
Bwlch Cyllidebol	5,571,151

	ATODIAD B	
Gwasanaeth	Arbediad a Gynigir	Cyfanswm Arbedion a Gynigir (16/17)
		£'000
Oedolion	CACI – System Electronig ar gyfer Rheoli Gofal Cartref (Yn 2012 fe gytunodd Uned Ddarparu Cyngor Sir Ynys Môn i gydweithio â Chyngor Gwynedd ar eu system electronig gyfredol ar gyfer rheoli gofal cartref. Nod y system hon oedd gwella cyfathrebu a rheolaeth gyffredinol ac ansawdd y gwasanaeth gofal cartref mewnol. Er y gwelwyd fod y system hon yn ased sy'n hanfodol er mwyn i'r gwasanaeth barhau i redeg, rydym wedi llwyddo i ail-negodi ein contract cyfredol gyda Chyngor Gwynedd).	7
Oedolion	Lleihau nifer y Swyddi Rheoli (Gweithio yn Hyblyg) Cytunwyd bod modd cyfuno dwy swydd rheoli gyfredol i ffurfio un swydd ar draws y Strwythur Trawsnewid Corfforaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ddwy swydd yn wag ar hyn o bryd a chynigir y newid ar sail y bydd y rôl yn elwa o'r gallu i weithio'n fwy hyblyg ar draws meysydd sy'n mynd drwy newidiadau o ganlyniad i weithio'n hyblyg.	48
Oedolion	Gostwng Rolau Gweinyddol (Ar ôl i gyn aelod o staff oedd yn rhoi cefnogaeth weinyddol i'r gwasanaethau darparu adael, mae'r gwasanaeth wedi ailddyrannu'r llwyth gwaith dros dro. Mae'r cyfnod hwn wedi dangos y byddai modd rheoli'r llwyth gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r swydd hon yn fewnol, ac argymhellir bod y swydd hon yn cael ei ryddhau ar sail tymor hir fel arbediad).	22
Oedolion	Gostwng Rolau Rheoli yn yr Uned Ddarparu (Ar hyn o bryd mae gan yr uned ddarparu o fewn Gofal Cymdeithasol Oedolion strwythur o un Rheolwr Busnes a dwy rôl Rheolwr Tîm. Er mwyn cydnabod y gostyngiad mewn gwasanaethau a reolir gan gynnwys allanoli 3 chyfleuster byw â chymorth ac 1 cartref yn y flwyddyn, cynigir bod un rôl yn cael ei ryddhau yn dilyn ailstrwythuro).	51
Tai	Gwasanaeth Galluogi Tai Gwledig (Aildrefnu'r Gwasanaeth yn Wasanaeth Rhanbarthol – Mae rôl y Galluogydd Tai Gwledig yn canolbwyntio ar gyflawni Tai Fforddiadwy mewn cymunedau gwledig).	4

Trawsnewid	Cael gwared ar swydd wag Cymhathu'r dyletswyddau cynllunio busnes a pherfformiad i mewn i swyddi cyfredol gan ddileu swydd oddi ar y strwythur. Hyn yn cyd-fynd â'r prosiect gweithio'n gallach.	35
Trawsnewid – TGCh	Cynnal a Chadw Caledwedd Cynnig gostyngiad yn y gwaith cynnal a chadw caledwedd	20
Addysg	Swydd Cynorthwy-ydd Gweinyddol Mae dyletswyddau cyn ddeilydd y swydd wedi cael ei dyrannu i aelodau staff eraill, a gellir cynnig y swydd fel arbediad effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17 wrth i ni symud tuag at weithio'n gallach a lleihau'r dyletswyddau clerigol llai sgiliedig gyflawnir yn yr adran.	19.2
Plant	Dod â Rôl y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd i ben yn y Gwasanaethau Plant a Gostwng Costau Rheoli (Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Plant gyda'r bwriad o ddarparu fframwaith rheolaethol sy'n ychwanegu gwerth at bob lefel dirprwyaeth a sicrhau bod rheolwyr canol yn arwain ar sicrwydd ansawdd o fewn eu maes cyfrifoldeb).	78
Plant	Swydd y Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol (Adolygu, ailfodelu a chyfuno Gwasanaethau Cefnogol Plant a'r Gwasanaethau Cefnogol i Blant gydag Anabledau er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol a chost effeithlon sy'n canolbwyntio ar atal achosion rhag gorfod cael eu huwchgyfeirio a phlant yn gorfod cael eu lleoli, a darparu model newydd o gyflwyno'r gwasanaeth. Bydd yr adolygiad yn canfod arbedion ariannol trwy ostwng dyblygu).	32
Plant	Arbedion o gyllideb y Panel Maethu (Mae'r costau a ragamcanwyd yn awgrymu y bydd y gyllideb hon yn tanwario'n gyson am y 3 blynedd nesaf fel y gellir gwneud arbedion).	16
Plant	Panel maethu di-bapur (Trwy brynu I-Pads i aelodau'r panel maethu byddai lleihad mewn costau gweinyddol a dros 3 blynedd byddai hyn yn creu arbedion sylweddol).	2
Plant	Trydydd Sector (Rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth/au a brynir gan y trydydd sector lle nad oes cyfrifoldebau statudol ar y Gwasanaethau Plant i'w cyllido).	13
Plant	Cyllideb Gwaelodlin Is DG413 (Yn dilyn craffu'r gyllideb cynigir arbediad sydd gyfwerth â 10% o gyllideb waelodlin 15/16).	9

Plant	Gostyngiad yn llinell gyllideb y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (Cyllideb waelodlin is ar gyfer cyfraniadau'r Gwasanaethau Plant at Bartneriaeth Cyflawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn. Mae hwn yn gyllid sydd heb ei defnyddio yn y gyllideb sylfaenol gan dybio na fyddai'r awdurdod sy'n cynnal y gwasanaeth angen unrhyw gynnydd uwchlaw'r chwyddiant).	5
Oedolion	Cynyddu Iefelau Taliadau Uniongyrchol (Pan gytunir fod unigolyn yn gymwys am Gymorth Gofal Cymdeithasol i oedolion a phan gytunir ar becyn o gymorth a gofal mae 2 opsiwn craidd yn bodoli ar gyfer trefnu'r gofal hwnnw. Yn draddodiadol, Adrannau Gofal Cymdeithasol sydd wedi cymryd y brif rôl wrth gomisiynu a rheoli pecynnau gofal o'r fath, fodd bynnag, mae Taliadau Uniongyrchol yn opsiwn lle mae'r unigolyn cymwys yn gyfrifol ac yn medru derbyn taliad er mwyn comisiynu ei ofal ei hun, ac ef fyddai'n cymryd y cyfrifoldeb am gyflogi staff a rheoli ei becyn gofal ei hun. Mae'r arbediad arfaethedig hwn yn seiliedig ar gynyddu nifer y bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol gan eu bod yn fwy effeithlon fesul pecyn o gymorth/gofal mewn cymhariaeth).	49
Oedolion	Adolygu a diwygio contractau cyfredol ar gyfer Gwasanaethau Dydd a gaiff eu comisiynu'n allanol i gefnogi cleientiaid gydag Anableddau Dysgu (Ar hyn o bryd mae'r adran yn comisiynu gwasanaethau allanol i gefnogi gwasanaethau dydd i Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu oddi wrth Tyddyn Môn, ac Agoriad (Caffi Llys Llewelyn)).	28
Oedolion	Ail-dendro'r holl Brosiectau Byw â Chymorth sy'n bodoli (Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn comisiynu 15 o brosiectau byw â chymorth oddi wrth ddarparwyr allanol. Mae adolygiad o'r gwasanaethau hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd dan arweiniad Cefnogi Pobl. Ystyrir y bydd hi'n briodol ail-dendro'r holl ddarpariaethau presennol yn 16/17, o bosib mewn dau gam ym mis Ebrill 16 a mis Medi 16).	42
Oedolion	Gwasanaethau Gofal Dydd Mewnol – Adolygu a Chysoni (Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithredu 3 Gwasanaeth Dydd sy'n cefnogi Oedolion gydag Anableddau Dysgu. Cynigir ein bod yn cynnal adolygiad o'r capasiti ym mhob canolfan dydd ac yn ystyried opsiynau i gysoni gwasanaethau. Efallai na fydd hyn o reidrwydd yn gofyn am ostyngiad mewn gwasanaethau - ond gall olygu bod llai o wasanaethau ar gael bob dydd. Gallai hefyd edrych ar opsiynau i wneud y defnydd mwyaf posib o'r adeiladau ar draws y 7 diwrnod mewn partneriaeth gyda sefydliadau trydydd sector, a gallai hynny arwain at incwm uwch).	26
Oedolion	Ailstrwythuro'r trefniadau rheoli ar gyfer Gwasanaethau Cefnogaeth Iechyd Meddwl yn y Gymuned Mae'r arbediad a gynigir yn codi o gael gwared ar un swydd reoli o'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl (yn amodol ar y broses ofynnol) yn Ysbyty Cefni sy'n rhoi cymorth l unigolion yn y gymuned. Yn ogystal rhyddheir cost rhent a dalwyd gynt pan oedd y gwasanaeth wedi ei leoli mewn adeilad preifat.	43

Oedolion	Gwerthu Garreglwyd Yn dilyn cytundeb y Cyngor i werthu Garreglwyd mae rhaglen waith fanwl nawr yn mynd rhagddi i hwyluso gwerthu'r adeilad i bartner annibynnol. Fe gawn arbediad pan fydd y gwerthiant wedi'i gwblhau gan fod y gost gyfredol o brynu lleoliadau gan y sector annibynnol yn is na'r gost o ddarparu'r gwasanaeth yn fewnol. Mae'r arbediad yn seiliedig ar werthu'r eiddo ym mis Medi 2015.	70
Oedolion	Allanoli Cyfleusterau Byw â Chefnogaeth Mewnol Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithredu tri o eiddo byw â chefnogaeth, gan ddarparu gofal a chefnogaeth i unigolion sydd ag Anableddau Dysgu allan yn y gymuned. O ganlyniad i newidiadau i'r Rhaglen Cefnogi Pobl mae'n rhaid allanoli'r gwasanaeth hwn erbyn hyn. Yr arbediad hwn yw lefel yr arbediad uwchlaw'r toriad Cefnogi Pobl y disgwylir y gellir ei ryddhau trwy'r newid hwn.	30
Oedolion	Taliadau Sector Gwirfoddol O ganlyniad i adolygiad desg o daliadau'r gwasanaeth gwirfoddol a blaenoriaethu cynigion buddsoddi, gwnaed cynigion i dorri rhai meysydd cyllid.	38
Oedolion	Cyllid o'r Cyfrif Refeniw Tai tuag at Gefnogaeth Therapi Galwedigaethol Ystyrir ei bod yn bosib i 0.5 o waith y Therapyddion Galwedigaethol sy'n gysylltiedig ag addasiadau i eiddo'r cyngor gael ei gyllido o'r Gronfa CRT a bydd hynny'n arwain at arbediad cyfatebol yn y gwasanaethau oedolion.	20
Oedolion	Darpariaeth Cartrefi Gofal Mewnol yn y dyfodol Cydnabuwyd y bydd cynnal darpariaeth cartrefi gofal yr Awdurdod Lleol o fewn ein rheolaeth ni yn fwy drud o gymharu â'r Sector Annibynnol. Ar hyn o bryd nid yw hyn yn ymrwymo'r adran i unrhyw arbediad - ond mae'n argymhell rhoi ystyriaeth i reolaeth y cartref yn y dyfodol ac a oes opsiynau i leihau'r costau gan gynnwys:- 1) Gwerthiant Unigol, 2) Gwerthiant ar y Cyd, 3) Trosglwyddo i Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol, 4) Arall. Dylid cydnabod bod y Cyngor wedi cytuno unwaith y bydd Gofal Ychwanegol yn cael ei ddatblygu yn yr ardaloedd lleol y bydd y cartrefi gofal yn cael eu digomisiynu.	TBC
Tai	Ehangu defnydd o'r Uned Cynnal Tai trwy'r Cyngor i gyd Lleihau costau cyffredinol y Cyngor ar gontractwyr allanol.	TBC
Tai	Cefnogaeth Fusnes – dyrannu costau staffio i'r CRT Bydd adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal ar yr amser staff a dreulir a'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r CRT a'r rheini sy'n cael eu hariannu o Gronfa Gyffredinol y Cyngor.	20

Tai	Diwygio Lles yn cynnwys CAB ac J E O'Toole Y cynnig yw ailganolbwyntio'r Gwasanaethau / Darpariaeth Budd-daliadau Lles, i leihau dyblygu yn y gwaith Budd-daliadau Lles sy'n cael ei wneud a'i gomisiynu gan amrywiol dimau a sefydliadau a sicrhau bod y model gwasanaeth arfaethedig yn darparu'r gwerth gorau i'r Awdurdod.	37
Tai	Cymunedau'n Gyntaf Môn Codi am amser y Pennaeth Gwasanaeth ar faterion busnes Cymunedau'n Gyntaf Môn.	2
Tai	Tai Gwag Archwilio'r potensial o godi ffi am wasanaethau'r Swyddog Tai Gwag, ar waith sy'n gysylltiedig â Gorchmynion Prynu Gorfodol.	11
Tai	Digartrefedd Archwilio'r potential o leoli pobl/teuluoedd mewn eiddo sy'n anodd i'w gosod yn hytrach na'u lleoli mewn gwesty gwely a brecwast.	25
Trawsnewid – AD	Dileu'r Les ar Tŷ Wiliam Jones Mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel cyfleuster hyfforddi. Bydd angen strwythuro darpariaeth y gwasanaeth mewn modd sy'n defnyddio'r darpariaethau mewnol sy'n bodoli yn y Pencadlys neu adeiladau eraill yn eiddo i'r Cyngor. Disgwylir mai bychan iawn fydd yr effaith.	4
Addysg	Dyslecsia Y cyn gyllideb Dyslecsa ar gyfer y sector Cynradd, mae ysgolion yn derbyn cyllid wedi'i ddirprwyo at ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig, yn cynnwys Dyslecsia, o fewn y gyllideb sydd wedi'i dirprwyo.	20.1
Addysg	Grantiau Celfyddydau ac Addysg Grantiau Celfyddydau ac Addysg dewisol i gyrff allanol. Gellir cynnig hwn fel arbediad effeithlonrwydd ar gyfer 2016-2017 gan ei fod yn gwbl ddewisol ac nid yw'n effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae nifer o gyrff bach (papurau bro ac ati) yn dibynnu ar gyfraniadau o'r fath er mwyn parhau â'u gwaith, felly byddai sicrhau bod corff arall yn medru cymryd cyfrifoldeb am y costau yn lliniaru'r effaith ar y buddiolwyr.	40.8
Addysg	Grantiau dewisol ae gyfer gwisg ysgol Gellir cynnig hwn fel arbediad effeithlonrwydd ar gyfer 2016-2017 gan ei fod yn gwbl ddewisol ac nid yw ar gael i rieni/disgyblion tu draw i CSYM.	19.0

Addysg	Rheoli Perfformiad Bydd y gwasanaeth gwella ysgolion Rhanbarthol yn ymgymryd â dyletswyddau Rheoli Perfformiad.	23.6
Addysg	Cynyddu Pris Prydau Ysgol Cynyddu'r targed incwm ar gyfer prydau ysgol yng Nghanolfan Addysg y Bont.	9.0
Addysg	Clybiau Ieuenctid Bu tanwariant ar y gyllideb hon yn hanesyddol, felly gellir ei chynnig fel arbediad effeithlonrwydd heb unrhyw effaith ar ddarpariaeth y Gwasanaeth.	15.0
Addysg	Grant Gwella Addysg Defnyddio'r Grant gwella Addysg i ariannu'r uned asesu Cyn Ysgol, sy'n staffio 1.5 o Gynorthwyr Dysgu.	36.6
Addysg	Gweithgareddau Ychwanegol y Gwasanaeth Ieuenctid Bu tanwariant ar y gyllideb hon yn hanesyddol, felly gellir ei chynnig fel arbediad effeithlonrwydd heb unrhyw effaith ar ddarpariaeth y Gwasanaeth.	5.0
Addysg	Prydau Ysgol Cynyddu'r incwm o brydau ysgol y mae rhieni'n talu amdanynt o fis Medi 2016 o 10c fesul pryd gan na fu unrhyw gynnydd ym mis Medi 2015.	17.1
Addysg	Blynyddoedd Cynnar Gostwng y bwrsari Blynyddoedd Cynnar gan 10% i'r Mudiad Ysgolion Meithrin a WPPA.	26.5
Addysg	Blas am Fwyd Nid oes angen y gyllideb mwyach.	51.3
Addysg	Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol Bu tanwariant hanesyddol yn y maes hwn.	15.0
Diwylliant	Amgueddfeydd a Diwylliant Ailstrwythuro cyn allanoli'r gwasanaeth o bosib a lleihad mewn costau staffio.	31.3
Diwylliant	System Rheoli Llyfrgelloedd Mae datblygiadau diweddar a chydweithio rhanbarthol wedi golygu fod cost y gwasanaeth wedi gostwng o £20,000 i £3,000. Bydd gwaith gweinyddol pellach i'w wneud er mwyn cysoni'r systemau gwybodaeth a bydd hynny werth tua £7,000 ond mae hwn yn gost unwaith ac am byth am dymor penodol. O ganlyniad gellir cynnig £10,000 fel arbediad effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17.	10.0

Hamdden	Ailstrwythuro'r Swyddogaeth Hamdden Bydd sefydlu strwythur rheoli, trefn a diwylliant mwy masnachol yn gwella darparieth y gwasanaeth, yn cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan ac yn creu incwm ac yn lleihau costau net y Swyddogaeth Hamdden.	42.4
Hamdden	Canolfan Hamdden Biwmares Y Cyngor Sir i roi'r gorau i roi cefnogaeth ariannol i Ganolfan Hamdden Biwmares ar ôl i'r cytundeb sybsidi tair blynedd ddod i ben.	20.0
Hamdden	Caffis y Canolfannau Hamdden Mae'r caffis yng Nghanolfannau Hamdden Plas Arthur a Chaergybi ar hyn o bryd yn gwneud colled o tua £15,000 yr un. Trwy ailstrwythuro oriau staff a gwella'r bwydlenni yn y ddau gaffi, disgwylir y bydd y ddau gyfleuster yn gwneud digon o elw i dalu am y costau yn ystod 2016-2017. Bydd angen gwneud mân addasiadau i'r caffis.	28.0
Hamdden	Gwersi Nofio Cynyddu nifer yr wythnosau mewn blwyddyn pan fo gwersi nofio'n cael eu dysgu. Yn unol â Chynllun Nofio Cenedlaethol Nofio Cymru, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cynyddu'r nifer o 30 i 44 wythnos y flwyddyn.	55.0
Economaidd a Morwrol	Wardeiniaid Traeth Cyfraniad ariannol gan gyngor Cymuned Llanfaelog tuag at gostau Warden Traeth yn Nhraeth Crigyll, Rhosneigr.	1.0
Economaidd a Morwrol	Morwrol Ailstrwythuro wythnos waith y Tîm Morwrol i bump o bob saith niwrnod i leihau taliadau goramser o ganlyniad i weithio ar benwythnosau yn yr Haf.	10.0
Economaidd a Morwrol	Marchnata Gostyngiad yng Ngweithgareddau Marchnata (Digidol) Croeso Môn.	24.6
Economaidd a Morwrol	Digwyddiadau'r Haf Gostyngiad yn y gefnogaeth i Ddigwyddiadau Twristiaeth yn yr Haf. Caiff Digwyddiadau Twristiaeth eu cydnabod fel priif gyfrwng i dwf economaidd yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan. Bydd yr arbediad effeithlonrwydd a gynigir yn cynrychioli lleihad sylweddol yn y gefnogaeth a'r cymorth i ddigwyddiadau yn nhermau cyllid, adnoddau, datblygiad ac isadeiledd.	5.8
Economaidd a Morwrol	Gwybodaeth i Dwristiaid Lleihad yn y gefnogaeth i Ganolfannau Gwybodaeth i Dwristiaid.	1.6

Priffyrdd	Tendro Bysiau Newidiadau i fanyleb contractau gwasanaeth bws er mwyn cynnal lefel y gwasanaeth ond ar gost is.	60.0
Priffyrdd	Meysydd Parcio Cynnydd mewn incwm o feysydd parcio.	30.0
Priffyrdd	Swyddogion Croesfannau Ysgol Parhau gyda'r polisi o beidio amnewid staff Croesfannau Ysgol trwy beidio llenwi eu swyddi pan fyddant yn gadael. Golyga hyn y bydd rhagor o ysgolion heb swyddog arbennig i gynorthwyo plant i groesi'r ffordd. Ar hyn o bryd dim ond 14 o ysgolion sy'n derbyn y gwasanaeth hwn. Mae nifer y Swyddogion hyn wedi bod yn gostwng am sawl blwyddyn. Byddwn yn parhau â'r polisi o beidio cael swyddog newydd os yw deilydd y swydd yn ymdeol neu'n ymddiswyddo.	10.0
Priffyrdd	Graeanu Gostwng y Gyllideb Graeanu, ond sicrhau bod unrhyw gostau dros ben oherwydd gaeafau caled yn cael eu hariannu'n gorfforaethol.	50.0
Priffyrdd	Cludiant Môn Mae'r gyllideb hon wedi cael ei thanwario'n hanesyddol, felly gellir ei chynnig fel arbediad effeithlonrwydd heb unrhyw effaith ar ddarpariaeth y Gwasanaeth.	20.0
Priffyrdd	Meysydd Parcio Cynyddu'r Incwm o Feysydd Parcio, trwy gynyddu ffioedd a 5 o Feysydd Parcio talu ac arddangos ychwanegol.	10.0
Priffyrdd	Lampau LED Yn dilyn rhaglen barhaus y gwasanaeth dros sawl blwyddyn o amnewid lampau am lampau LED ynghyd ag opsiynau ar gyfer pylu'r golau a diffodd y lampau, mae'r costau ynni a chynnal a chadw wedi syrthio felly gellir gwneud arbediad o £100k.	100.0
Priffyrdd	Mân Waith Traffig Lleihad yn y gyllideb i gynnal mân waith traffig gan gynnwys arwyddion ffyrdd a phaentio llinellau.	10.0
Priffyrdd	Gwaith Cynnal a Chadw Gellir cyfalafu cost y gwaith ar y ffyrdd.	200.0
Eiddo	Glanhau Mae hwn yn lleihad yn y gyllideb ar gyfer glanhau holl Adeiladau'r Cyngor.	100.0

Eiddo	Mân-ddaliadau Cynnydd yn lefel yr incwm o fân-ddaliadau yn dilyn neilltuo'r incwm ar gyfer atgyfeirio a chynnal a chadw.	35.0
Gwastraff	Cyfleusterau Cyhoeddus Arbediad posib o £8k trwy drosglwyddo'r Toiled yn y Porth ym Miwmares i'r Cyngor Tref ac arbediad o £6K trwy ddarparu tanc septig ym Mhorth Swtan yn lle'r carthbwl presennol.	14.0
Gwastraff	Gwasanaeth Glanhau Mae hon yn ffynhonnell newydd o incwm lle mae'n bosib i fusnes / 3 ^{ydd} parti noddi hysbyseb ar Fin. Mae ymgynghori'n dechrau gyda busnesau lleol. Codir tâl o tua £200 fesul hysbyseb.	10.0
Gwastraff	Biniau Arbediad ychwanegol trwy adolygu'r costau o gyflenwi biniau newydd a chynyddu'r gost o £25 i £30 y bin.	1.5
Gwastraff	Casglu Gwastraff Byddwn yn cyflawni arbediad o £100k trwy drosglwyddo gwastraff i'w ailgylchu i St Helens a Runcorn yn hytrach nag i'w dirlenwi yn Llanddulas (dechreuwyd ym mis Mai 2015). Er bod rhaid mynd ag ychydig o wastraff gweddilliol i Llanddulas yn unol â'r contract presennol, bydd Biffa a Grays yn mynd a 10,000 o dunelli i'r safleoedd a gwastraff bob un. Bydd 20% o'r gwastraff hwn yn cyfrif tuag at ein targed ailgylchu ac mae'n darparu arbediad o £10 y dunnell. Felly, dylwn gwrdd â'r targed ailgylchu o 58% ar gyfer 15/16; y gost am fethu yw £100k fesul 1%. Mae'r gyfradd ailgylchu yn 55% ar hyn o bryd. Mae ymgynghorwyr allanol wrthi'n ystyried 3 opsiwn gwahanol ar gyfer casglu gwastraff ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gyflawni cynnydd o 10% mewn cyfraddau ailgylchu. Mae'r opsiynau'n cynnwys: a) casglu bob 3 wythnos b) casglu bob 4 wythnos neu c) lleihau maint y bin o 240 litr i 120 litr. Bydd y mater yn dod gerbron y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref i'w gymeradwyo. Bydd y gost gyfalaf ar gyfer opsiwn a) ac b) yn £522k (prynu rhagor o focsys ailgylchu) ac yn £1.6 miliwn ar gyfer yr opsiwn c) (bocsys ailgylchu newydd ynghyd â biniau gweddilliol). Bydd yr opsiynau hyn yn darparu arbediad blynyddol o thua £200k. Pe bai'r opsiwn 4 wythnos yn cael ei weithredu gallai hynny olygu mai Ynys Môn yw'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i gyflawni'r targed ailgylchu o 70% sydd ei angen erbyn 2024/25.	300.0
Gwastraff	Casglu Gwastraff Swmpus Stopio'r holl gasgliadau gwastraff swmpus am ddim ym mis Ebrill 2016.	90.0

Gwarchod y Cyhoedd	Rheoli Pla Mae gan y swyddogaeth Rheoli Pla gwsmeriaid mewnol ac allanol ac mae'n creu cryn dipyn o incwm. Gallai gostyngiadau staff effeithio ar yr incwm a gynhrychir a'r nod yw gwneud y gwasanaeth yn fwy cadarn, yn fwy proffesiynol ac yn un sy'n talu amdano ei hun. Byddai cynyddu'r incwm yn arwain at leihau'r gyllideb wrth fynd ymlaen. Mae'r rhaglen wella yn anelu at ddileu'r gorwariant o £13k ar y gyllideb mewn modd cynaliadwy.	13.0
Gwarchod y Cyhoedd	Ailstrwythuro Staffio Bydd hyn yn ganlyniad gweithio y tu allan i'r swyddfa er mwyn cyflawni arbedion mewn amser staff a theithio.	20.0
Gwarchod y Cyhoedd	Cynyddu Incwm Seremonïau Priodas - Yn hanesyddol mae'r gyllideb hon wedi cyflawni mwy na'i tharged incwm, felly gellir cyflawni'r arbediad hwn heb unrhyw newid i ddarpariaeth y gwasanaeth.	5.5
Gwarchod y Cyhoedd	Incwm Cynyddu incwm trwy godi tâl am archwiliadau dilynol ar dai, gyda gwasanaeth ymgynghorol sy'n rhoi cymorth i gynhyrchu asesiad risg tân am £65 yr awr.	1.3
Gwarchod y Cyhoedd	Rheoli Llygredd Cyllideb incwm newydd trwy godi tâl am reoli llygredd – ymchwilio i gwynion am niwsans sŵn. £65 yr awr.	1.3
Gwarchod y Cyhoedd	Iechyd a Diogelwch Cyllideb incwm newydd trwy godi tâl am wasanaeth ymgynghorol i gynorthwyo gyda chydymffurfio â gofynion cyfreithiol Iechyd a Diogelwch.	1.9
Gwarchod y Cyhoedd	Incwm uwch o fasnachu stryd – newid yn y polisi.	11.2
Gwarchod y Cyhoedd	Safonau Bwyd Cyllid Allanol oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gynnal archwiliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid yng Nghymru.	12.9
Cynllunio	Coed Cymru Lleihad yn y staffio.	18.0
Cynllunio	AHNE Mae angen edrych ar hyn o ran beth sy'n statudol a ddim yn statudol – a symud i ffwrdd o brosiectau tuag at swyddogaethau statudol craidd. Dylai'r rhain gynnwys (i) asesiad o grantiau (ii) effaith bosib tynnu'n ôl a darparieth gan eraill a (iii) gostyngiad posib yn y gweithlu.	11.0

Cynllunio	Ffioedd Cynllunio Cynyddu'r Incwm o Ffioedd Cynllunio.	15.0
Busnes y Cyngor	Undeb Parhau i ymgynghori â'r Undeb er mwyn lleihau'r cymhorthdal mae'r Cyngor yn ddarparu mewn perthynas â chostau sy'n gysylltiedig â'r undeb.	26.0
Busnes y Cyngor	Ymchwil Ymchwil Sgriwtini – mae'r gyllideb heb ei defnyddio.	5.0
Busnes y Cyngor	Llyfrau a Chyfnodolion Prynu llai o gyfnodolion a llyfrau'r gyfraith.	45.0
Adnoddau	Staffio Ailstrwythuro Staffio a Swyddi Gwag Cyfredol yn y sefydliad.	102.0
Adnoddau	Lwfansau Car Gostwng nifer yr ymweliadau i gyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol.	2.8
Adnoddau	Taliadau Banc	5.0
Adnoddau	Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Swyddfeydd	1.0
Adnoddau	Ymgynghorwyr Allanol Gostwng y defnydd o ymgynghorwyr allanol i wneud darnau penodol o waith.	10.0
Adnoddau	Treuliau Cyfweliad	1.5
Adnoddau	Treuliau Cyffredinol Treuliau Amrywiol – cyllideb nad yw'n cael ei dyrannu i unrhyw wariant penodol.	4.3
Addysg	Cyllideb Ysgolion Lleihad yn y gyllideb sy'n cael ei datganoli i'r ysgolion.	1,000.0
Yr Awdurdod	Gostyngiadau 3 ^{ydd} Sector.	250.0
	Cyfanswm	3,919

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL
DYDDIAD:	9 TACHWEDD 2015 16 TACHWEDD 2015
PWNC:	BIDIAU CYFALAF 2016/17
AELOD PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD H E JONES
SWYDDOG SY'N ARWAIN:	MARC JONES
SWYDDOG CYSWLLT:	CLAIRE KLIMASZEWSKI / GARETH ROBERTS (EST: 2675)
Natur a rheswm dros adrodd:	
Fel bod modd i'r Cyngor Sir gymeradwyo ac awdurdodi Rhaglen Gyfalaf am 2016/17.	
A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau	
<p>1. <u>CEFNDIR</u></p> <p>1.1 Dyma'r rhestr o'r Bidiau Cyfalaf a gynigiwyd gan adrannau ar gyfer eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i 2020/21.</p> <p>1.2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r UDA ar 12/10/15 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn ddiweddarach lle argymhellir y bydd yr eitemau sydd wedi eu lliwio yn Atodiad A yr adroddiad (eitemau sy'n werth hyd at £26,301m) yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i 2020/21. Mae £9,657m o hyn yn ymrwymiad a ddygwyd ymlaen o 2015/16 ar gyfer y ddwy Ysgol 21^{ain} Garrif. Mae'r cynlluniau a gyllidir o'r CRT ar gyfer 2016/17 yn £11.636m.</p> <p>2. <u>CYNNYDD</u></p> <p>2.1 Yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2014 yn nodi Strategaeth Gyfalaf, gofynnwyd i'r adrannau gyflwyno bidiau ar gyfer prosiectau cyfalaf ar gyfer eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd.</p> <p>2.2 Cafwyd mwy o atebion o lawer na'r disgwyl ac mae'r rhestr lawn o'r bidiau am 2016/17 i'w gweld yn Atodiad A(1) ac Atodiad A(2). Mae Atodiad A(1) yn dangos y bidiau a'r cyllid sydd ei angen ar eu cyfer ac mae Atodiad A(2) yn dangos y modd y cafodd y bidiau eu sgorio yn erbyn cyfes o feini prawf penodol.</p> <p>2.3 Adolygwyd pob bid o ran cyfanrwydd ac yna, cawsant eu blaenoriaethu gan y Grŵp Asedau Cyfalaf yn unol â'r pwyntiau a neilltuwyd sy'n seiliedig ar gyfres benodol o feini prawf fel y nodir yn Atodiad B.</p> <p>2.4 Cafodd amcangyfrif o'r adnoddau cyfalaf a oedd ar gael (Atodiad C) ei baratoi ac yn erbyn hwnnw, cymharwyd y rhestr o fidiau. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, tybiwyd mai'r bidiau a fydd yn cael eu hargymell ar gyfer eu cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2016/17 fydd yr eitemau hynny sydd wedi eu lliwio ar Atodiad A. Bydd bidiau a gynhwysir yn y blynyddoedd i ddod yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael ar yr adeg briodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd cynnwys prosiectau yn 2016/17 yn cael effaith ar ymrwymiad ar flynyddoedd yn y dyfodol.</p> <p>2.5 Bydd cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2016/17 yn cael ei fonitro'n rheolaidd a'i adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. Os byddwn yn derbyn mwy o dderbyniadau cyfalaf na'r disgwyl, mae hyn yn golygu y gellir ystyried cynlluniau pellach a rhoddir gwybod am hynny i'r Pwyllgor Gwaith cyn gynted ag sy'n bosibl ac yna gellir gwneud penderfyniad ar ba gynlluniau newydd, os o gwbl, i'w cymeradwyo .</p> <p>2.6 Adolygodd y Grŵp Asedau Cyfalaf rywfaint o'r gofyniad cyllido ar gyfer y bidiau Addysg yn unol â rhestr a ddarparwyd. Ystyriwyd y rhestr o fidiau yn nhrefn blaenoriaeth a'r rheini gyda blaenoriaeth D oedd y mwyaf hanfodol.</p> <p>2.7 Yn ogystal, penderfynodd y Grŵp Asedau Cyfalaf adolygu'r fid ynghylch</p>	

Gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol gan ei bod yn cynnwys rhai costau referniw.

- 2.8** Mae angen y Grant Cyfleusterau i'r Anabl drwy statud. Fodd bynnag, nid oes rhaid iddo fod mor uchel â'r £0.816m y gofynnwyd amdano. Gellir gwneud penderfyniad i ostwng y swm hwn ond dylid cymryd i ystyriaeth y risgiau yn sgil gwneud hynny.
- 2.9** Amcangyfrifir bod y rhaglen a argymhellir yn £26.3m. Nid yw hyn yn cynnwys cynllun sy'n sgorio yn uchel ond nad yw'n fforddiadwy. Mae'r rhaglen yn argymhell cynnwys buddsoddiad o £1m mewn tai gofal ychwanegol ym Miwmares ar gyfer 2017/18 a fyddai'n denu buddsoddiad o £14m gan landlord cymdeithasol cofrestredig ar draws 2018/19 a 2019/20. Mae hyn yn ychwanegol at y prosiect tai gofal ychwanegol presennol yn Llangefni. Cyflwynwyd bid hefyd am £6m ar gyfer tai gofal ychwanegol yn Amlwch. Roedd hyn wedi ei broffilio i wario £3m yn 2016/17 a £3m yn 2017/18. Nid yw'r prosiect hwn wedi denu buddsoddiad allanol hyd yma. Petai cynllun tai gofal ychwanegol Amlwch yn cael ei adael allan, yna gellid derbyn 24 o brosiectau newydd a fyddai'n cyfrannu tuag at amrediad o flaenoriaethau corfforaethol yn ychwanegol at y ddau brosiect Ysgolion 21^{ain} Ganrif a gymeradwywyd yn 2015/16. Os caiff tai gofal ychwanegol ei gynnwys yn y rhaglen, dim ond 5 prosiect fyddai'n fforddiadwy yn ychwanegol at y prosiectau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghaerdybi a'r Llannau.
- 2.10** Er bod y fid am Borth Ymwelwyr Ynys Gybi (Ranc Pwysoli o 35) yn aflwyddiannus, dylid nodi y gallai'r fid am £80,000 dros gyfnod o 2 flynedd gan Gyngor Sir Ynys Môn arwain at Gyllid Allanol o £4.92m ac y dylid ei hystyried.
- 2.11** Nid yw rhai cynlluniau megis cael Cerbydau Newydd a Thrwyddedu Meddalwedd yn cwrdd â Blaenoriaeth Gorfforaethol benodol. Fodd bynnag, heb y cynlluniau hyn, teimlir na fyddai modd i rai gwasanaethau allweddol weithredu felly maent wedi eu hargymhell ar gyfer eu cymeradwyo.
- 2.12** Er y gall cynllun a dderbynnir fod ag ymrwymiadau yn 2017/18 ac ymlaen, bydd angen i'r cynlluniau hyn gael eu hadolygu o ran eu fforddiadwyedd yn ystod y broses o gyflwyno Bidiau Cyfalaf yn 2017/18. Bydd angen cyflwyno bid newydd gyda gwybodaeth ariannol ddiweddaedig a bydd angen i'r fid gael ei derbyn eto fel rhan o'r broses o bennu Cyllideb Gyfalaf 2017/18 i fynd yn ei blaen.
- 2.13** Mae Atodiad D yn dangos y gost o fenthycia i'r awdurdod er mwyn cyllido Rhaglen Gyfalaf 2016/17
- 2.14** Mae'r Cyngor yn debygol o wynebu costau sylweddol mewn perthynas â Thâl Cyfartal a bydd yn cyflwyno Cais Cyfalafu i gyllido'r costau hyn. Nid yw cost Tâl Cyfartal wedi cael ei fesur ond mae'n debygol o fod yn sylweddol (o bosibl oddeutu £4.5m) a bydd yn ychwanegol at y prosiectau ar gyfer rhaglen gyfalaf 2016/17 a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Efallai y bydd angen cyllido hyn o fenthyciadau digefnogaeth os nad oes cyllid cyfalaf arall ar gael.
- 2.15** Er bod y bid am System casglu gwastraff newydd (Ranc Pwysoli o 33) am £0.523m yn aflwyddiannus, dylid nodi y bydd y system newydd yn creu arbedion referniw o £0.300m y flwyddyn. Mae hyn wedi ei gynnig fel arbediad effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17, ac yn ffurfio rhan o gyllideb referniw ddrafft 2016/17. Gallai y cynllun yma fynd yn ei flaen drwy gynyddu y Benthycia Digefnogaeth o £0.523m, neu drwy gymeryd lle un o'r cynlluniau sydd ar y funud yn llwyddianus.

3. MATER I'W BENDERFYNU ARNO

- 3.1** Mae'r adroddiad hwn yn argymhell –
- a)** Bod yr eitemau sydd yn y blychau lliw yn Atodiad A yr adroddiad (eitemau sy'n werth hyd at £26,301m) yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i 2020/21.
- b)** Bod yr eitemau ar gyfer y CRT sydd wedi eu lliwio yn ail dabl Atodiad A yr adroddiad (eitemau sy'n werth hyd at £11,636m yn cel eu cyfeirio i'r

ATODIAD A(1)

Tudalen 34

Cyfradrn	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Blwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Blwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Blwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Blwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Blwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Derbyniadau Cyfalaf (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycu gyda Chefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycu Difefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycu Difefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Cyfraniad Refeniw o'r Gronfa Wrth Gefn Sydd Heb ei Defnyddio (Cyfalaf) (£'000)
Dysgu Gydol Oes	Addysg	1	Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caergybi		5,697	149				2,849						2,849
Dysgu Gydol Oes	Addysg	2	Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Llannau		3,960	131				1,980	332					1,648
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	3	Tai Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys	Mae'r cais hwn am gefnogaeth gyfalaf yn cael ei wneud er mwyn darparu cefnogaeth uniongyrchol ac fel bod modd symud ymlaen gyda'r flaenoriaeth gorfforaethol i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol yn ne'r Ynys. Os byddai modd sicrhau'r £1m, byddai'r cartref gofal yn cael ei ddatblygu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.	0	1,000	7,150	7,150			0					
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	4	Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll	Mae'r rhaglen adnewydd ar gyfer Plas Crigyll yn cynnwys: • 4 o ystafelloedd ymolchi newydd (15k yr un) • 9 o dulleddau newydd i'r anabl (1k yr un) • Lloriau newydd ar ddwy uned (9,250k) • Adnewyddu'n llwyr 13 o ystafelloedd gwely (1,500k yr un) • Gwydr dwbl ar yr holl ffenestri cyfredol (dim costau ar hyn o bryd) H4	98						0	98				
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	5	Prifffyrdd newydd ar gyfer Wylfa Newydd	Bydd angen gwella'r rhwydwaith prifffyrdd cyfredol ar Ynys Môn ar gyfer datblygu'r orsaf niwclear newydd yn Wylfa. Mae'r Cyngror wedi nodi ei ddull yn seiliedig ar dystiolaeth o asesu'r gwelliannau angenrheidiol i'r prifffyrdd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Mae'n cydnabod yr angen i wella'r A5025 a Lôn Nanner	3,784	4,918	5,876	14,168			3,784					
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	6	Cerbydau Newydd	Mae'r Cyngror yn gweithredu fflyd o amryw o gerbydau a pheiriannau gan gynnwys bysus, Cerbydau Nwyddau Trwm a faniau. Mae angen y gronfa hon er mwyn cael cerbydau newydd yn lle'r rheiny sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes economaidd. .	150	0	0	0	0	0	0	150				
Cymuned	Tai - Y Gronfa Gyffredinol	7	Grant Cyfleusterau i'r Anabl	Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn grant mandadol o hyd at £36,000 ac mae'r Cyngror yn derbyn oddeutu 180 o ymholiadau y flwyddyn am wahanol addasiadau i gartrefi. Mae oddeutu 120 o'r ymholiadau hyn yn cael eu cymeradwyo ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl.	816	0	0	0	0	0	816					
Dysgu Gydol Oes	Addysg	8	Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont		150	874	13			75	75					
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	9	Gweithredu CCIS	Mae'r fid yn gofyn am £222,500, dim on £50,000 o hyn sydd yn gysylltiedig gyda costau cyfalaf dros gyfnod o dair blynedd er mwyn gwneud yn siwr fod System Wylfa Gofal Cymunedol (CCIS) Cymru Gyfan , sydd wedi sicrhau £6.7 millwn o gyllid yn genedlaethol gan Gynulliad Cymru, yn cael ei gweithredu a'i defnyddio i'w potensial llawn gan wneud y mwya'r o unrhyw welliannau i brosesau a lif gwaith er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir yn Ynys Môn ac ar hyd a lled Cymru.	336	25					311	25				
Dysgu Gydol Oes	Addysg	10	Ysgolion y 21ain Ganrif - Bro Rhosyr / Bro Aberffraw		390	3,696	1,037	68		195	195					
Dysgu Gydol Oes	Addysg	11	Ysgolion y 21ain Ganrif - Bro Seiriol		207	718	3,668	939		103	104					
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	12	Uliniaru Llifogydd ym Miwmares	Yn hanesyddol, mae tref Biwmares wedi dioddef llifogydd. Mae'r cofnodiau o ddiwyddiadau'n cychwyn yn 1863, gyda digwyddiadau o bwys yn 1915, 1957, 2004, 2007 a 2012. Mae mwy o dywydd stormus a'r llanw uchel o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn golygu fod llifogydd yn digwydd yn amlach a'u bod yn fwy difrifol. Ymhellach i'r llifogydd a gafwyd yn 2004, gwnaed rhywfaint o waith i wella capasiti'r systemau draenio cyfredol a lleihau'r risg o lifogydd, fodd bynnag, eris risg gan gyfuniad o lifogydd glawol a llanwol. Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ymchwilio i lifogydd a, lle mae hynny'n briodol, i mofyn cyllid gan LIC ar gyfer gwelliannau.	600						510	90				
Cymuned	Tai - Cronfa Gyffredinol	13	Datblygu safle preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	Mae'r costau sydd wedi eu cynnwys yn y fid gyfalaf hon ar gyfer y mathau isod o safleoedd: 1 x safle preswyl parhaol ar gyfer hyd at 11 o aelwydydd 2 x llefydd aros dros dro ar gyfer hyd at 20 o garafanau yr un. Mae'r costau'n ymwneud â: Prynau'r tir Datblygu'r safle (i safon a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru)	247	1,500				Potensial	200			47		

Cyfradrn	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Blwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Blwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Blwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Blwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Blwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Derbynladau Cyfalaf (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycyda Chefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycyda Ddefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Cyfraniad Refeniw o'r Gronfa Wrth Gefn Sydd Heb ei Defnyddio (Cyfalaf) (£'000)
Dysgu Gydol Oes	Addysg	14	Gostwng Risgiau Tân yn adeiladau'r Cyngor	Alli flwyddyn rhaglen gyfalaf barhaus. Mae Rhan 1 y gwaith a oedd yn cynnwys gosod systemau larwm tâ newydd yn Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Bodedernbron wedi ei gwblhau. Mae cynnau tanau'n fwrriadol yn ychwanegu at y tebygolrwydd o dân mewn ysgol. Cafwyd nifer o ymosodiadau yn y gorffennol ac mae'n eithaf tebygol y bydd mwy yn y dyfodol. Mae'n hanfodol felly y gwneir pob ymdrech i leihau'r risg y bydd tân yn digwydd ac yn lledaenu a sicrhau y bydd modd gwagio'r adeilad yn ddiogel. Mae rhagfalon tân mewn ysgolion yn cynnwys adranu gan ddefnyddio drysau tân a walla solet, larnau tân a goleuadau argyfwng a darparu dlangfeydd. Mae systemau chwistrellu wedi cael eu gosod mewn ysgolion newydd ond nid oes chwistrellwyr mewn unrhyw adeiladau eraill. Roedd y bid gwreiddiol am £150k, ond nid oedd unrhyw gynllun ar yr amserlen yn flaenoriaeth D, felly ceir £dim gyllideb ei argymhell.	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	15	County Prudential Borrowing Initiative (Road Surfacing)	Roedd y toriadau mewn refereniw ar gyfer 2015/16 yn golygu y byddai'r Awdurdod yn methu cwddd â golygonion sylfaenol y contract o arian refereniw ac yn cael ei hun mewn sefyllfa o fod wedi torri amodau'r contract gyda'r ddatau contractwr. Byddai buddsoddiad cyfalaf yn fodd i'r Cyngor aros o fewn telerau'r contract a bod mewn sefyllfa i adolygu'r contractau ar gyfer unrhyw estyniad neu ailendro y tu draw i fis Mawrth 2017.	2,200	0					0	2,189		11	
